

Gŵyl Fwyd Sain Ffagan

8-9 Medi 2018

Cais

st fagans
sain ffagan
museum
of history
amgueddfa
werin
cymru

Sylwer taw ffurflen gais yn unig yw hon. Rhaid derbyn unrhyw ddogfennau perthnasol erbyn 19 Mawrth 2018. Byddwn yn eich hysbysu os yw eich cais yn llwyddiannus erbyn 6 Ebrill. PEIDIWCH ag anfon tâl gyda'r cais hwn.

MANYLION CYSWLLT

Enw Cwmni:	
Enw Arddangos:	
Disgrifiad o'r cynnyrch a werthir mewn manylder: Sylwer na roddir hawl i stondinwyr werthu eitemau heb eu nodi yma.	
Enw Cyswllt:	
Rôl gyda'r Cwmni:	
Cyfeiriad:	
Cod Post:	
Rhif ffôn:	
Ffôn symudol yn ystod y digwyddiad:	
E-bost:	
Gwefan:	
Cyfrif Twitter:	

Caiff eich manylion eu defnyddio at ddibenion y digwyddiad hwn yn unig.

Gŵyl 2017...

Dychwelodd yr Ŵyl Fwyd yn 2017 ar gyfer ei 8fed blwyddyn. Roedd yn benwythnos llwyddiannus iawn a groesawodd 19,000 o ymwelwyr dros y ddau ddiwrnod. Roedd dros 80 o stondinau yn arddangos eu cynnyrch Cymreig, ynghyd a llawer o weithgareddau ac arddangosiadau ar hyd y safle.

Dyma a ddywedodd rhai o'n ymwelwyr...

"We visited St Fagans specifically for the Food Festival, although we have often visited the museum before. The food festival is amazing. There was a live jazz band and the place was buzzing." – [Adolygiad Trip Advisor](#)

"the food festival which was extremely vibrant and created a great festival atmosphere among the old and ancient buildings." – [Adolygiad Trip Advisor](#)

ANGHENION

Gweler y map sydd ynghlwm am fanylion maint a lleoliad y stondinau. Sylwer bod yn rhaid i bob gwerthwr logi gofod yn yr ŵyl am ddau ddiwrnod, mae’r costau isod ar gyfer y penwythnos i gyd. Mae’r opsiynau isod yn derfynol ac ni fydd hawl codi unrhyw strwythurau eraill ar y safle. Pob pris cyn TAW.

Coginio ar y safle

Hoffwn y nifer canlynol o stondinau 3m x 3m am £215 yr un:
Sgwâr Gwalia

1234

Hoffwn ofod gosod trelar o’r maint canlynol yng Nghornel Cilewent
am £230:
Atodwch lun o’r offer ychwanegol.
Os bydd digon o le tu ôl i stondin ar gyfer offer ychwanegol (e.e. cerbyd oergell neu unrhyw gerbyd storio arall) codir tâl ychwanegol o £50.

Agoriad Ochr ChwithAgoriad Ochr DdeDd/B

Hoffwn ofod gosod gazebo yng Nghornel Cilewent o’r maint canlynol
am £190:
Atodwch lun o’r offer ychwanegol.
Os bydd digon o le tu ôl i stondin ar gyfer offer ychwanegol (e.e. cerbyd oergell neu unrhyw gerbyd storio arall) codir tâl ychwanegol o £50.

Hoffwn ofod gosod trelar neu gazebo yn Ardal y Bar o’r maint canlynol
am £190:
Atodwch lun o’r offer ychwanegol.
Os bydd digon o le tu ôl i stondin ar gyfer offer ychwanegol codir tâl ychwanegol o £50.

Agoriad Ochr ChwithAgoriad Ochr DdeDd/B

Neuaddau Bwyd a Diod

Hoffwn nifer canlynol o ofod pabell 2.4m x 2.4m marquee am £150:
Neuadd Fwyd Maentwrog & Neuadd Fwyd Cilewent

1234

Hoffwn nifer canlynol o stondin marchnad 3m x 3m am £150:
Lôn Hendrewen

1234

Dodrefn, Offer a Storio

Hoffwn i’r Amgueddfa ddarparu y nifer canlynol o fyrrdau am £8 yr un:

12Offer personol

Hoffwn i’r Amgueddfa ddarparu y nifer canlynol o gadeiriau am £5 yr un:

12Offer personol

Hoffwn i’r Amgueddfa ddarparu y nifer canlynol o unedau golchi dwylo bwrdd am £40 yr un:

12Offer personol
Amherthnasol

Hoffwn i’r Amgueddfa ddarparu y nifer canlynol ofod storio oer am £30 yr un (maint tua 1m x 0.6m x 0.6m)

12345

Ychwanegol

Hoffwn i’r cyfeiriad gwefan uchod ymddangos ar dudalen digwyddiadau Amgueddfa Cymru tan 9 Medi am £15:

leNa

Rhaid nodi pob darn o gyfarpar byddwch yn ei ddefnyddio yn unigol. Y wybodaeth bwysicaf yw y defnydd watedd. Ni fydd trefnwyr y digwyddiad yn darparu unrhyw gyfarpar ar eich rhan. Nodir prisiau'r cyflenwad trydan isod. Rhaid archebu cyflenwad trydan ymlaen llaw – NI FYDD defnyddio ceblau ymestyn, addaswyr na generadur petrol yn cael ei ganiatáu. Sylwer bod y prisiau isod yn berthnasol i gyflenwadau sy'n cael eu harchebu ymlaen llaw yn unig. Codir tâl ychwanegol o 50% am gyflenwad trydan ar y diwrnod.

CYFARPAR	Nifer o Socedi	WATEDD

DEFNYDD WATEDD	PRIS
100W – 500W	£11
501W – 1500W	£22
1501W – 3500W	£33
3501W – 5000W	£44
5001W – 10,000W	£55

A fyddwch chi'n dod â chyflewnad nwy ar gyfer y stondin?	byddaf ☐	na fyddaf ☐	
Gyda pha awdurdod lleol yr ydych wedi cofrestru, os yn berthnasol?	☐		
Cadarnhewch eich gradd hylendid bwyd neu rif cymeradwyo os yn berthnasol. Cysylltwch â'ch awdurdod lleol am ragor o fanylion.	☐		
Sawl cerbyd fydd gyda chi yn y digwyddiad?	1 ☐	2 ☐	3 ☐
Fyddwch chi'n gwerthu alcohol yn y digwyddiad? Sylwer bod gan yr Amgueddfa drwydded safle. Dim ond deiliad Trwydded Bersonol gaiff werthu neu gymeradwyo gwerthiant alcohol. Rhaid i ddeiliad Trwydded Bersonol un ai wisgo neu arddangos eu trwydded. Mae gan yr Amgueddfa bolisi her 21.	byddaf ☐	na fyddaf ☐	
Bydd yr amser gosod o 7am – 9.30am bob bore. A fyddwch chi am gael cyfle i baratoi prynhawn Gwener, 7 Medi, o 4pm – 8pm?	byddaf ☐	na fyddaf ☐	
Os ydych am baratoi prynhawn Gwener, a fydd angen trydan dros nos am £10?	byddaf ☐	na fyddaf ☐	
A fydd angen trydan dros nos ar y Sadwrn am £10?	byddaf ☐	na fyddaf ☐	
Rwyf eisiau gweryslla dros nos am ffi o £10 y nos Mae defnydd o gawod o fewn y gost	Gwener ☐	Sadwrn ☐	

CYNNIG DISGOWNT 50%*

A ydych wedi bod yn masnachu am llai na 12 mis?

byddaf

na fyddaf

A ydych yn gwerthu bwyd môr neu cynhyrch gyffelyb?

byddaf

na fyddaf

*Nodwch mai nifer cyfyngedig o stondinau sydd ar gael gyda disgownt

Sylwer: os na fyddwch wedi cwblhau’r ddogfen gan ddarparu’r manylion perthnasol ac unrhyw ddogfennau angenrheidiol, ni fydd eich cais yn cael ei ystyried.

Gwnewch yn siŵr eich bod chi wedi darparu popeth yn y rhestr isod cyn dychwelyd y ddogfen at:

Digwyddiadau
Sain Ffagan Amgueddfa Werin Cymru
Caerdydd CF5 6XB

Am unrhyw ymholiadau cysylltwch
â adran Digwyddiadau ar:
(02920) 573441
digwyddiadau@amgueddfacymru.ac.uk

Rydw i wedi amgau:

Ffurflen gais wedi’i chwblhau, ei llofnodi a’i ddyddio (sgan yn dderbyniol)

Cytundeb arddangos wedi’i lofnodi (gweler isod)

Asesiad risg wedi’i gwblhau (gweler isod)

Copi o fy yswiriant atebolrwydd cyhoeddus

Copi o fy nhystysgrif graddfa hylendid

Rhestr arlwyyo awyr agored (os yn berthnasol)

Copi o fy nhrwydded gwerthu alcohol (os yn berthnasol)

Dim ond deiliad Trwydded Bersonol gaiff werthu neu gymeradwyo gwerthiant alcohol. Rhaid i ddeiliad Trwydded Bersonol un ai wisgo neu arddangos eu trwydded. Mae gan yr Amgueddfa bolisi her 21.

FFURFLEN ASESU RISG GŴYL FWYD SAIN FFAGAN 2018 (Gorfodol)

Cwblhewch y ffurflen asesu risg isod a’i dychwelyd gyda’r ffurflen gais.
(Cwblhewch mewn LLYTHRENNAU BRAS)

Enw’r person atebol:

Enw Cwmni:

Rhif cyswllt (gan gynnwys cod ardal):

Nodwch bob eitem sy’n berthansol i’ch stondin:

☐ LPG ar y safle

☐ Hynod fflamadwy

☐ Arwynebeddau poeth

☐ Paratoi bwyd

☐ Offer trydanol

☐ Gweithio ar uchder

☐ Deunydd sych llosgadwy

ASESIAD RISG STONDIN FASNACHU

Perygl	Personau/grŵp mewn perygl	Mesurau i leihau’r perygl neu risg

Llofnod y person atebol:

Ticiwch yn blwch yn hytrach na llofnodi:

Datganiad Hylendid Bwyd a Diogelwch Trydanol:

Rwyf yn cadarnhau fy mod yn gyfarwydd â’r ddeddfwriaeth diogelwch bwyd bresennol ac y bydd gan unrhyw gyfarpar trydanol a ddefnyddir yng Ngŵyl Fwyd Sain Ffagan dystysgrif PAT gyfredol ar 8 Medi 2018

Llofnod:

Ticiwch yn blwch yn hytrach na llofnodi:

Dyddiad:

AMGUEDDFA CYMRU / NATIONAL MUSEUM WALES

TELERAU AC AMODAU I GYFRANOGWYR (ARDDANGOSYDD)

CYFFREDINOL

1. Mae'r Cytundeb hwn yn ymwneud â GŴYL FWYD SAIN FFAGAN sydd i'w chynnal ar 8-9 Medi 2018.
2. Diben y Cytundeb hwn yw amlinellu'r rhwymedigaethau o ran iechyd a diogelwch a'r rhwymedigaethau o ran yswiriant sy'n codi pan fo rhai nad ydynt yn weithwyr cyflogedig i'r Amgueddfa, gan gynnwys yr Arddangosydd, yn cymryd rhan yn y Digwyddiad.
3. Mae'r Cytundeb hwn yn cyd-fynd ag unrhyw delerau neu amodau penodol a all fod yn gymwys i'r Digwyddiad ac sy'n ymwneud â'r Arddangosydd.

CYTUNDEB ATODOL

1. Mae'r Cytundeb hwn yn atodol i unrhyw gytundeb arall a wneir rhwng yr Amgueddfa a'r Arddangosydd mewn cysylltiad â'r Digwyddiad. Os ceir unrhyw wrthdaro rhwng telerau'r Cytundeb hwn ac unrhyw gytundeb arall o'r fath, telerau'r Cytundeb hwn fydd drechaf.

IECHYD A DIOGELWCH

Rhaid i'r Arddangosydd, drwy gydol y cyfnod y mae ar fangre'r Amgueddfa [neu ar unrhyw dir yn gyfagos i'r fangre honno sy'n cael ei ddefnyddio gan yr Amgueddfa mewn cysylltiad â'r Digwyddiad gan gynnwys heb gyfyngiad fannau agored cyhoeddus, priffyrdd a phalmentydd] (sef gyda'i gilydd 'yr Ardal') at ddibenion y Digwyddiad:

1. Cymryd pob gofal rhesymol ynglŷn ag iechyd a diogelwch yr Arddangosydd ei hun a phob person arall yr effeithir arno gan ei weithredoedd neu ei ddiffyg gweithredoedd gan gynnwys heb gyfyngiad ei weithwyr cyflogedig, staff yr Amgueddfa ac ymwelwyr â'r Digwyddiad.
2. Sicrhau mai dim ond oedolion sydd wedi cael eu hyfforddi'n llawn i'w godi, ei ddatod a'i ddefnyddio'n ddiogel fydd yn codi, yn datod neu yn gweithredu unrhyw offer, peiriannau neu gyfarpar arall a ddefnyddir cyn y Digwyddiad, yn ystod y Digwyddiad neu ar ôl y Digwyddiad.
3. Sicrhau bod yr Amgueddfa'n cael gwybod ar unwaith os ceir unrhyw ddamwain.
4. Sicrhau y cydymffurfir yn llawn â'r holl reoliadau perthnasol ar hylendid bwyd os oes bwyd yn cael ei werthu.
5. Cydymffurfio â'r holl reoliadau a darpariaethau statudol perthnasol ar iechyd a diogelwch ac yn benodol â'r polisi a'r canllawiau ar Iechyd a Diogelwch a nodir ym Mholisi a Llawlyfr cyfredol yr Amgueddfa ar Iechyd a Diogelwch ar yr adeg berthnasol ac unrhyw gyfarwyddiadau neu ganllawiau ychwanegol a roddir gan yr Amgueddfa.
6. Peidio â gwerthu na darparu unrhyw ddiodydd alcoholig mewn cysylltiad â'r Digwyddiad heb yn gyntaf sicrhau unrhyw drwyddedau angenrheidiol a chydysniad ysgrifenedig ymlaen llaw gan yr Amgueddfa.
7. Cydymffurfio â phob cyfarwyddyd ac amod a bennir gan yr awdurdod tân, yr awdurdod heddlu neu'r awdurdod cymwys arall sy'n berthnasol mewn cysylltiad â'r Digwyddiad. Yr Arddangosydd sy'n gyfrifol am ddarparu offer diogelwch tân addas ar eu stondin.
8. Peidio â rhwystro unrhyw allanfa, tramwyfa neu goridor yn yr Ardal.
9. Peidio â difrodi unrhyw offer ymladd tân a leolir ar yr Ardal neu ynddi a pheidio â mynd â'r offer hwnnw ymaith.
10. Peidio â dod ag unrhyw ddeunydd ffrwydrol, peryglus, gwenwynig neu ymbelydrol i'r Ardal nac yn agos iddi.
11. Peidio â gorlwytho unrhyw ynni trydan neu ynni arall a gyflenwir neu a ddarperir gan yr Amgueddfa yn yr Ardal.
12. Peidio â dod â chyflenwad pŵer o unrhyw natur i'r Ardal heb gydsyniad ysgrifenedig ymlaen llaw gan yr Amgueddfa.
13. Sicrhau ar ôl i ymwneud yr Arddangosydd â'r Digwyddiad ddod i ben fod yr holl sbwriel sy'n gysylltiedig â'r Arddangosydd yn cael ei waredu'n briodol yn y mannau perthnasol a ddynodir gan yr Amgueddfa ac nid ei adael mewn modd a fydd yn peri niwsans cyhoeddus neu unrhyw berygl posibl i unrhyw berson.
14. Sicrhau bod holl asiantau, staff a gweithwyr cyflogedig yr Arddangosydd yn cydymffurfio â'r holl delerau yn y rhwymedigaethau uchod fel y'u nodir yn y Cymal 3 hwn.

YSWIRIANT A RHWYMEDIGAETH

1. Ac eithrio marwolaeth neu anaf personol a achosir gan esgeulustod yr Amgueddfa, ei gweision neu ei hasiantau, ni fydd yr Amgueddfa'n gyfrifol am farwolaeth, anaf, clefyd, colled (uniongyrchol, canlyniadol neu fel arall), traul, cost neu ddifrod a achosir i unrhyw Arddangosydd neu i'w weision neu ei asiantau neu i unrhyw berson, anifail, gwrthrych, offer, peiriant neu beth o unrhyw natur o gwbl yn yr Ardal, neu a ddioddefir ganddynt, beth bynnag fo'r achos.
2. Rhaid i'r Arddangosydd indemnio a pharhau i indemnio'r Amgueddfa rhag pob hawliad, cost, iawndal, colled (uniongyrchol, canlyniadol neu fel arall) neu dreuliau o gwbl sydd mewn unrhyw fodd yn deillio o bresenoldeb yr Arddangosydd neu ei arddangosion neu ei eiddo yn yr Ardal gan gynnwys heb gyfyngiad unrhyw rai o'r uchod sy'n deillio o unrhyw weithred neu ddiffyg gweithred gan yr Arddangosydd neu gan unrhyw rai o'i asiantau, ei weision neu ei weithwyr cyflogedig.
3. Nid yw'r Amgueddfa'n ysgwyddo dim cyfrifoldeb dros yswirio'r Arddangosydd na'i eiddo a'i offer.
4. Rhaid i'r Arddangosydd drefnu a chadw yswiriant digonol gyda chwmni yswiriant sy'n dderbyniol i'r Amgueddfa rhag tân, lladrad a risgiau eraill nid yn unig o ran ei eiddo ei hun a'r Arddangosydd ei hun, ei weithwyr cyflogedig, ei asiantau a'i weision, ond hefyd rhag hawliadau gan drydydd partïon a rhwymedigaeth meddianwyr.
5. Heb ragfarnu cyffredinolrwydd Cymal 2 mae'n ofynnol i'r Arddangosydd drefnu yswiriant rhwymedigaeth gyhoeddus gyda chwmni yswiriant sy'n dderbyniol i'r Amgueddfa drwy gydol y cyfnod y mae'r Arddangosydd yn ymwneud â'r Digwyddiad (gan gynnwys amser codi a datod unrhyw arddangosion, offer ac ati), hyd at isafswm o £1,000,000 (miliwn o bunnoedd) am bob digwyddiad a chyfres o ddigwyddiadau sy'n codi yn sgil unrhyw un digwyddiad ac os gofynnir amdano rhaid rhoi copi o'r premiwm a'r polisi/polisiâu yswiriant cofrestredig perthnasol i'r Amgueddfa cyn y Digwyddiad yn brawf bod yr yswiriant hwn wedi'i drefnu.

CYFFREDINOL

1. Os digwydd i'r Arddangosydd fethu cydymffurfio ag unrhyw rai o'r telerau a'r amodau uchod neu ag unrhyw delerau ac amodau eraill a osodir gan yr Amgueddfa, bydd gan yr Amgueddfa yr hawl i wrthod mynediad i'r Ardal neu i'w gwneud yn ofynnol i'r Arddangosydd ymadael â'r Ardal ac o dan yr amgylchiadau hynny ni fydd yr Amgueddfa'n atebol i'r Arddangosydd am unrhyw golledion neu dreuliau o unrhyw natur a ysgwyddir gan yr Arddangosydd o ganlyniad i fethu â dod i'r Ardal.
2. Er y bydd Trefnwyr y Digwyddiad yn darparu diogelwch dros nos o'r diwrnod cyn y digwyddiad tan fore diwrnod olaf y digwyddiad, yr Arddangosydd a'r Stondinwyr sy'n gyfrifol am ddiogelu unrhyw nwyddau ac eitemau ar eu stondin. Ni fydd Trefnwyr y Digwyddiad yn gyfrifol mewn unrhyw fodd am golled neu ddifrod i eiddo.
3. Bydd Trefnwyr y Digwyddiad yn ystyried pob cais, a bydd eu penderfyniad yn derfynol. Os bydd llefydd yn rhydd wedi'r dyddiad cau caiff ceisiadau ychwanegol eu Hystyried.
4. Ceidw'r Arddangosydd yr hawl i nodi eu lleoliad delfrydol, ond Trefnwyr y Digwyddiad fydd yn gwneud y penderfyniad terfynol ar yr union safle yn y lleoliad. Ceidw y Trefnwyr yr hawl i newid unrhyw gynlluniau safle fel y mynnant. Os yw cais am leoliad delfrydol yn aflwyddiannus, gall y Trefnwyr gysylltu â chi i gynnig lleoliad arall.
5. Os yw eich cais yn llwyddiannus a'r taliad wedi ei dderbyn, bydd unrhyw gais gaiff ei dynnu yn ôl cyn 1 Gorffennaf 2018 yn derbyn ad-daliad llawn. Ni fyddwn yn ystyried ad-daliadau wedi hyn. Ni ddarperir ad-daliadau am amgylchiadau y tu hwnt i'n rheolaeth e.e. tywydd gwael.

Yr wyf fi/ydyn ni wedi darllen y 'Telerau a'r Amodau' uchod ac yn cytuno drwy hyn i'w parchu a'u cyflawni.

Enw'r Sefydliad/Arddangosydd:

Llofnod (gan neu ar ran yr uchod):

Ticiwch yn blwch yn hytrach na llofnodi:

☐

Dyddiad: